

Cyngor o dan y dynodiad

Cyngor cychwynnol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i Medr

Medi 2024

Cyflwyniad

- Mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) i gynghori Medr ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg o dan adran 9(1) Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ('Deddf 2022').
- Dyma Nodyn Cyngor cyntaf y Coleg i Medr o dan y dynodiad. Cyngor cychwynnol yw hwn: mae'n cwmpasu'r sector drydyddol gyfan ac yn anelu at ddylanwadu ar Gynllun Strategol cyntaf Medr, a gyflwynir i Weinidogion Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024. Mae'r Coleg wedi ymgynghori gyda rhanddeiliaid wrth lunio'r Nodyn Cyngor hwn.
- Mae Medr a'r Coleg eisoes wedi cytuno ar Femorandwm o Ddealltwriaeth, sydd yn gosod sail i berthynas weithredol y ddau gorff. Yn sgil hyn byddwn yn cytuno ar drefniadau cyfarfodydd ffurfiol i drafod Nodiadau Cyngor a materion gweithredol. Bydd y Coleg yn cyflwyno Nodiadau Cyngor pellach ar faterion penodol i Medr, i'w datblygu mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid perthnasol.
- Mae Deddf 2022 yn gosod 11 o ddyletswyddau strategol ar Medr. Mae un o'r rheiny, Adran 9, yn ymwneud â 'hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg':

9(1) Rhaid i'r Comisiwn –

- a. *annog y galw am addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddi;*
 - b. *cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol Gymreig a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw;*
 - c. *annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg –*
 - i. *gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a*
 - ii. *gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo.*
5. Yn Neddff 2022, mae 'addysg drydyddol', ac felly cyfrifoldebau Medr, yn 'cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg oedolion yn y gymuned, addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol' (Memorandwm Esboniadol, 1.3).
6. Bu'r Coleg yn cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector addysg uwch ers 2011 ac yn y sector addysg bellach a phrentisiaethau ers 2019. Tra'n bod wedi cydweithio'n agos ag ysgolion erioed, bu'r berthynas gyda'r sector ysgolion yn wahanol am nifer o resymau. Gan fod y dynodiad i gynghori Medr yn cwmpasu'r sector addysg drydyddol yn ei chyfanrwydd, bydd y Coleg yn meithrin perthynas agosach gyda'r sector ysgolion er mwyn datblygu dealltwriaeth lawn o'r heriau a'r cyfleoedd mae'n eu hwynebu.

Datganiad o weledigaeth

7. Gweledigaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw bod pob dysgwr¹ yn defnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol. Y weledigaeth hon yw sail y Nodyn Cyngor hwn.

¹ Mae 'dysgwr' a 'dysgwyr' yn y Nodyn Cyngor hwn yn cynnwys pawb sy'n derbyn addysg drydyddol. Mae hynny'n adlewyrchu ieithwedd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 mewn perthynas â'r Cod Ymgysylltu.

8. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd. Dylai pob dysgwr yn y sector addysg drydyddol gael cyfle ac anogaeth i ddefnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg, mewn dull ac ar lefel sydd yn briodol ac yn teimlo'n berthnasol iddynt. Dylai pob dysgwr gwblhau eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol yn meddu ar sgiliau Cymraeg fydd yn eu cynorthwyo yn eu camau nesaf yn eu gyrfa a'u bywydau, gan eu caniatáu i fod yn aelodau o weithluoedd a chymunedau dwyieithog.
9. Yn y weledigaeth hon, mae darparwyr² addysg a hyfforddiant yn gwybod beth yw lefel sgiliau Cymraeg dysgwyr ar ddechrau eu cwrs neu eu hyfforddiant. Maent yn cynnig darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog addas ac ystyrlon i bob dysgwr, beth bynnag fo'u gallu, sgiliau a'u cefndir: yn gyfuniad o ddysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gwersi Cymraeg, darpariaeth ymwybyddiaeth iaith a/neu gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar leoliad gwaith. Mae pob llwybr ar gael yn Gymraeg. Mae gan bob darparwr ddigon o staff sy'n gymwys i gefnogi dysgwyr ar hyd eu llwybr, ac mae'r cymwysterau sy'n cael eu sefyll ar gael yn Gymraeg. Mae dysgwyr yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus, cadarnhaol ynghylch eu taith yn yr iaith Gymraeg. Mae dysgwyr yn gadael y sector drydyddol wedi cael profiadau addysgol Cymraeg a dwyieithog o'r safon uchaf ac yn barod i ddefnyddio'u Cymraeg yn y gweithle ac yn y gymuned.

² Mae 'darparwr' yn cyfeirio at sefydliad 'sy'n darparu addysg drydyddol, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran, y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru' (Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, Adran 144(1)).

Rhoi'r weledigaeth ar waith: Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg

10. Yn ei ddatganiad o flaenoriaethau ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Medr) ar 28 Chwefror 2024, nododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y dylai Medr:

D[datblygu] cynllun i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan, a'i hyrwyddo, gan gydnabod rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel y person dynodedig o dan Adran 9 o Ddeddf 2022 a Cymwysterau Cymru fel y rheoleiddiwr cymwysterau annibynnol. Mae hyn yn rhan allweddol o'r llwybr di-dor i ddysgwyr at yr addysg drydyddol o'u dewis.

11. Er mwyn gweithredu hyn, mae'r Coleg yn cyngori Medr i ymrwymo yn ei Gynllun Strategol cyntaf i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol gyfan.
12. Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn awgrymu proses gydweithredol ar gyfer llunio cynllun o'r fath ynghyd â chyfres o egwyddorion a nodau lefel uchel sydd yn cynnig sail i Medr gyflawni ei ddyletswyddau strategol statudol yn unol â Deddf 2022.

Proses gydweithredol o lunio Cynllun Cenedlaethol

13. Yn 2018, gyrrwyd datblygiad Cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau'r Coleg gan grŵp tasg a gorffen dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr y Coleg oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru ac arweinwyr y sector. Mae'r ffaith i'r cynllun gael ei dderbyn mor eang a'i weithredu gan y darparwyr yn destament i fodel cynhwysol a gofalus o'i lunio.
14. Byddai datblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y sector addysg drydyddol gyfan yn galw am weithio gydag ystod ehangach o randdeiliaid gan gynnwys dysgwyr, darparwyr, rheoleiddwyr a chyff

cenedlaethol perthnasol eraill. Mae'r Coleg yn cyngori datblygu proses gynllunio sy'n meithrin yr un ysbryd cydweithredol a sensitif ac yn dwyn i ystyriaeth sefyllfaoedd ac anghenion pob darparwr.

15. Mae'n gwbl allweddol bod Medr yn datblygu a pherchnogi cynllun sydd yn gyraeddadwy, ac yn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu.
16. Mae gan y Coleg arbenigedd, profiad a chysylltiadau mewn cynllunio addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a bydd ganddo rôl statudol yn cyngori ar y Cynllun Cenedlaethol. Pwysleisiwn, serch hynny, mai gan Medr mae'r cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg a'r grym rheoleiddio i roi cynlluniau ar waith. Wrth i Medr ddatblygu amodau rheoleiddio, bydd disgwyl i ofynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg fod yn ganolog.
17. Cynigiwn fod y broses o lunio Cynllun Cenedlaethol yn destun trafodaeth bellach rhwng swyddogion Medr a'r Coleg er mwyn cytuno ar broses fydd yn caniatáu rhoi gwrandawriad i wahanol leisiau ac yn sicrhau bod pawb sydd â rôl i'w chwarae yn natblygiad a gweithrediad y cynllun yn awyddus a pharod i wneud eu rhan.

Cyd-destun a ffurf y Cynllun Cenedlaethol

18. Mae'r Nodyn Cyngor hwn yn nodi egwyddorion sydd yn deillio o ddeddfwriaeth, datganiadau gweinidogaethol, polisi, ymarfer cyfredol, ac arfer da yn y maes cynllunio ieithyddol. Yr egwyddorion hyn yw'r sail i wireddu:
 - dyletswyddau strategol Medr mewn perthynas â'r Gymraeg dan Ddeddf 2022
 - blaenoriaethau strategol Medr mewn perthynas â'r Gymraeg a osodwyd gan Lywodraeth Cymru
 - gweledigaeth y Coleg

ac, yn y pen draw, nodau pellgyrhaeddol Strategaeth Cymraeg 2050

Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith.

19. Yn y cyd-destun hwn mae'n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) ar 15 Gorffennaf 2024. Mae'r Bil yn:
- rhoi sail statudol i'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill yn ymwneud â defnyddio'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol
 - sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer leithoedd (y CEFR)
 - gwneud darpariaeth ynghylch dynodi categorïau iaith statudol ar gyfer ysgolion, ynghyd â gofynion o ran swm yr addysg Gymraeg a ddarperir (yn cynnwys isafswm), a nodau dysgu Cymraeg sydd ynghlwm wrth y categorïau
 - cysylltu'r cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel awdurdod lleol (drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg)
 - sefydlu corff statudol, yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl o bob oedran i ddysgu Cymraeg.
20. Mae'r ddarpariaeth a amlinellir yn y Bil yn anelu at sefyllfa lle bydd pawb sydd yn gadael y sector addysg statudol yn 'ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol'. Rhaid i Medr a'r sector drydyddol gynllunio ar gyfer y cyd-destun hwn.
21. Er na ddaw'r Bil yn Ddeddf tan ar ôl i Medr gyhoeddi ei Gynllun Strategol cyntaf, mae'r Nodyn Cyngor hwn yn talu sylw i ddarpariaethau'r Bil ac yn gyson gydag uchelgais y Llywodraeth ar gyfer y Gymraeg ac addysg Gymraeg. Mae cyngor y Coleg i Medr ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y sector drydyddol yn gyson gyda darpariaeth y Bil fod y Llywodraeth yn datblygu Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Pan ddaw'r Bil yn statud, bydd yn allweddol bod cynllun

Medr ar gyfer y sector drydyddol yn cydlynu gydag ac yn adeiladu ar y Fframwaith Cenedlaethol arfaethedig.

22. O roi'r Cyngor hwn ar waith ar draws y sector drydyddol mewn ffordd sy'n cynnwys pob dysgwr, bydd modd adeiladu ar yr hyn sy'n digwydd yn y sector addysg statudol a chynyddu'r ganran o bobl ifanc sy'n hyderus yn defnyddio'u Cymraeg wrth astudio, hyfforddi a gweithio.
23. Isod, nodwn egwyddor sylfaenol a chwech o egwyddorion craidd sy'n deillio ohoni. Yna ymhelaethwn fesul egwyddor graidd ar nodau lefel uchel. Mae'r Coleg yn cyngori mai dyma'r egwyddorion a'r nodau sydd angen i Medr eu mabwysiadu er mwyn cyflawni'r ddyletswydd strategol sy'n ymwneud â'r Gymraeg dan adran Adran 9(1) o Ddeddf 2022.
24. Cyngorwn fod Medr yn datblygu Cynllun Cenedlaethol sy'n adeiladu ar y Nodyn Cyngor hwn, gan osod nodau lefel uchel ynghyd â dulliau gweithredu strwythurol ar gyfer pob nod. Byddai'r Cynllun Cenedlaethol yn gosod blaenoriaethau a themâu cenedlaethol ar draws y sector gyfan, yna byddai disgwyl i ddarparwyr perthnasol ddatblygu cynlluniau er mwyn amlinellu sut y byddant yn gweithio tuag at gyflawni hyn o fewn eu cyd-destunau. Bydd gofyn am gefnogaeth a chydweithrediad rheoleiddwyr a chyrff cenedlaethol perthnasol eraill hefyd wrth ddatblygu a gweithredu'r Cynllun. Mae gan y cyrff hyn rôl allweddol yn cefnogi darparwyr o fewn gwahanol feysydd yn y sector addysg a hyfforddiant trydyddol.
25. Bydd y Coleg yn darparu cyngor pellach i gynorthwyo Medr i ddatblygu'r Cynllun.
26. Tra bod cyfrifoldebau Medr yn cwmpasu'r sector drydyddol gyfan, bydd yn bwysig cydnabod gwahaniaethau sectorol, daearyddol a hanesyddol wrth ddatblygu'r Cynllun.
27. Er enghraifft, yn y sector addysg uwch, profwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o bynciau y mae modd eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg ers sefydlu'r Coleg. Ceir rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ym mhob un o'r 36 'prif grŵp pwnc' sy'n cael eu rhestru yng Nghynllun Academaidd Addysg Uwch y Coleg, o'i gymharu â 12 yn 2011.

28. Ar y llaw arall, datblygiad cymharol newydd yw'r cynnydd mewn darpariaeth ddwyieithog mewn colegau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau. Yn y rhan fwyaf o achosion, darpariaeth lefel B3 a ddatblygwyd hyd yn hyn.
29. Mewn chweched dosbarth ysgolion y ceir y ddarpariaeth Gymraeg helaethaf. Yno, cynigir amrediad eang o bynciau Safon Uwch a darpariaeth alwedigaethol mewn nifer cynyddol o bynciau. Mae sefyllfa nifer o ddosbarthiadau chwech yn fregus ac mae angen ystyried hyn wrth ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol oherwydd pwysigrwydd allweddol chweched dosbarth cyfrwng Cymraeg i wireddu targedau Cymraeg 2050. Mae'n allweddol wrth gynllunio yn y cyd-destun hwn bod llais ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'w glywed yn glir a bod Medr yn mynd i'r afael â'r heriau mae'r sector yn eu hwynebu mewn dull cydweithredol. Cyngorwn felly y dylai Medr adnabod dulliau addas i sicrhau bod llais ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael sylw penodol yn y broses o ddatblygu'r Cynllun Cenedlaethol.
30. Cyngorwn ymhellach fod awdurdodau lleol – a fydd yn derbyn cyllid gan Medr i gyllido chweched dosbarth mewn ysgolion – yn cynllunio'n rhagweithiol gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sydd â chweched dosbarth.

Egwyddorion a nodau ar gyfer y Cynllun Cenedlaethol

Egwyddor sylfaenol: Dylai pob dysgwr ddefnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol, er mwyn eu galluogi i'w defnyddio yn y gweithle ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol

- Mae'r egwyddor hon yn llyso trwy ddeddfwriaeth, datganiadau gweinidogaethol a pholisïau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg mewn addysg drydyddol. Fe'i gwelir, er enghraifft, yn Cymraeg 2050 (Thema 1, Nod 4), ym Memorandwm Esboniadol Deddf 2022 (3.50 a 3.51) ac ym Mil y Gymraeg ac Addysg (adran 23(3)(e)).
- Yr egwyddor hon yw craidd gweledigaeth a chyngor y Coleg. Mae popeth sy'n dilyn yn deillio o'r egwyddor sylfaenol hon.

Egwyddor 1: Mae cynllunio strategol a gweithredol yn hanfodol

- Fel y nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Medr i:

D[d]datblygu cynllun i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg yn y system drydyddol gyfan.

I gyflawni Dyletswydd Strategol 9(1)(b) ('Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg') a Dyletswydd Strategol 9(1)(c) ('annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg'), mae'n rhaid i ddarpariaeth gael ei theilwra yn unol ag anghenion y dysgwyr, blaenoriaethau strategol y darparwyr, gofynion gweithluoedd a natur cymunedau lleol. Geilw hyn am gynllunio cenedlaethol a sefydliadol a defnydd llawn o bwerau rheoleiddio Medr mewn perthynas â'r Gymraeg. Bydd yn allweddol i Medr gydweithio'n agos gyda'r Coleg wrth ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y sector drydyddol er mwyn gwneud y defnydd gorau o arbenigedd a phrofiad y Coleg yn y maes, yn ogystal â rhoi ystyriaeth lawn i gyngor y Coleg o dan y dynodiad.

Nod 1.1: Bod Medr yn ymrwymo yn ei Gynllun Strategol cyntaf i weithio gyda'r Coleg ac eraill i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg ar draws y sector addysg drydyddol gyfan.

Nod 1.2: Bod Medr, gyda chefnogaeth y Coleg, yn datblygu dealltwriaeth lawn o gyd-destun a pholisi'r Gymraeg ac addysg Gymraeg ac yn deall pwysigrwydd a rôl y sector drydyddol o fewn y gyfundrefn addysg Gymraeg ehangach.

Nod 1.3: Bod strwythurau a phrosesau mewnol Medr yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ar draws y sefydliad a bod penderfyniadau strategol ynghylch cyllido a pholisi ehangach yn cefnogi amcanion y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg, yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 a'r fframweithiau perthnasol ac yn cyfrannu tuag at gyflawni'r dyletswyddau dan Adran 9 Deddf 2022.

Nod 1.4: Bod darpariaeth drydyddol Gymraeg a dwyieithog yn cael ei chynllunio'n strategol ar sail y blaenoriaethau cenedlaethol a osodwyd yn y Cynllun Cenedlaethol: boed hynny gan ddarparwyr unigol neu awdurdodau lleol.

Nod 1.5: Y gosodir targedau fesul darparwr perthnasol fel rhan o drefniadau cynllunio strategol, cyllido a rheoleiddio Medr.

Nod 1.6: Bod prosesau monitro ac atebolrwydd cadarn yn rhan o drefniadau cynllunio strategol, cyllido a rheoleiddio Medr.

Nod 1.7: Bod cyrff llywodraethu y darparwyr perthnasol yn perchnogi cynlluniau'r darparwyr mewn perthynas â'r Gymraeg ac yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu.

Nod 1.8: Bod Medr yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a chyrff perthnasol eraill i sicrhau bod y gweithlu addysg statudol a thrydyddol yn cael ei gynllunio i hwyluso cynnydd mewn darpariaeth o safon uchel.

Nod 1.9: Bod Medr yn cydweithio â chyrff perthnasol eraill i sicrhau bod adnoddau a chymwysterau wedi'u cynllunio i hwyluso cynnydd mewn darpariaeth o safon uchel.

Nod 1.10: Bod prosesau cynllunio yn annog cydweithio a chydlafulio rhwng darparwyr yn yr un ardal ddaearyddol neu faes hyfforddiant er mwyn cefnogi'r amcanion cenedlaethol.

Nod 1.11: Bod prosesau cynllunio awdurdodau lleol yn arwain at warchod a chefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg 16–19, a gynigir ar y cyfan mewn chweched dosbarth ysgolion.

Nod 1.12: Bod y Gymraeg yn rhan o gynllunio strategol ehangach pob darparwr.

Nod 1.13: Bod anghenion gweithluoedd a chymunedau dwyieithog yn ystyriaeth flaenllaw wrth gynllunio darpariaeth ac wrth gynllunio sut i annog y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad ynddi.

Egwyddor 2: Mae'r dysgwyr wrth wraidd y system

34. Un o nodau Deddf 2022 yw creu system addysg drydyddol sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr (Memorandwm Esboniadol, 3.1) ac ategir hyn yn y blaenoriaethau strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Medr.

Nod 2.1: Bod y Gymraeg yn perthyn i bob dysgwr, beth bynnag fo'u gallu, eu sgiliau a'u cefndir, a bod Medr yn cymryd camau rhagweithiol i sicrhau cyfranogiad grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Nod 2.2: Bod llais y dysgwyr yn rhan o'r cynllunio cenedlaethol a sefydliadol mewn perthynas â'r Gymraeg.

Nod 2.3: Bod pob llwybr ar gael yn Gymraeg.³ Gwarchodir hawl dysgwyr i astudio pob pwnc a phob cymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys mewn meysydd sy'n denu niferoedd bach o ddysgwyr.

³ Gweler [Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi'r Datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi \(28 Chwefror 2024\) | LLYW.CYMRU](#)

Nod 2.4: Bod llwybrau dilyniant clir a chydlynus sydd yn caniatáu ac yn annog dysgwyr i ddilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar hyd eu taith.

Nod 2.5: Mae pob dysgwr yn dilyn elfen Gymraeg o fewn eu darpariaeth, wedi'i theilwra i natur a lefel y cwrs/hyfforddiant er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn defnyddio, cynnal a datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Egwyddor 3: Mae taith y dysgwr yn seiliedig ar y Cod arfaethedig i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg

35. Mae Bil y Gymraeg ac Addysg yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i 'lunio Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg sy'n seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd' (y CEFR) (6(1)). Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi '[b]ydd hyn yn hwyluso cydddealltwriaeth dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr o daith unigolyn i ddysgu Cymraeg a'r deilliannau ieithyddol ar bob cam o'r daith honno' (3.35). Ymhellach, noda '[b]ydd y Cod a'r lefelau cyfeirio cyffredin yn parhau'n ddefnyddiol at ddibenion dysgu gydol oes a darparu cymwysterau yn y cydestun hwnnw, a bydd modd eu defnyddio mewn gweithleoedd' (3.89).

Nod 3.1: Bod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector drydyddol yn cael ei chynllunio ar sail y Cod arfaethedig, gyda'r nod o symud dysgwyr ar hyd y lefelau cyfeirio.

Nod 3.2: Bod darparwyr yn ymwybodol o lefel iaith Gymraeg pob dysgwr ar ddechrau a thrwy gydol eu darpariaeth, a hynny ar sail y Cod arfaethedig, a bod dysgwyr hefyd yn ymwybodol o'u lefel iaith Gymraeg eu hunain.

Nod 3.3: Bod darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar lefel briodol i'r dysgwr ac yn berthnasol i'w haddysg neu hyfforddiant.

Nod 3.4: Bod y cynllunio a'r cyllido yn talu sylw penodol i gynnal a chynyddu darpariaeth addas i ddysgwyr sydd eisoes ar lefel C1 neu C2 yn y Gymraeg.

Egwyddor 4: Rhaid annog y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad ynddi

36. Mae'r egwyddor hon yn seiliedig ar Ddyletswydd Strategol 9(1)(a) ('annog y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chyfranogiad ynddi'). Mae gan Medr gyfrifoldeb eang a phellgyrhaeddol i adeiladu'r galw ac i ehangu'r dewis i ddysgwyr astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan fod addysg drydyddol yn 'cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac uwch, addysg oedolion yn y gymuned, addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol' (Memorandwm Esboniadol Deddf 2022, 1.3). Ymhellach, mae Bil y Gymraeg ac Addysg yn gosod gofynion ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol 'i hwyluso dilyniant o ran addysgu Cymraeg ac addysg drwy gyfrwng y Gymraeg rhwng...addysg ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol ac addysg drydyddol' (23(3)(e), 28(2)(d)).

Nod 4.1: Bod annog y galw am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a chyfranogiad ynddi yn dechrau ymhell cyn i ddysgwyr symud o'r sector statudol i'r sector drydyddol ac yn parhau trwy gydol eu cyfnod ynddi.

Nod 4.2: Bod anogaeth i bob dysgwr ddilyn darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn ystod eu cyfnod yn y sector drydyddol.

Nod 4.3: Bod annog y galw a chyfranogiad yn cael ei lywio gan ddata, ymchwil ac arfer da.

Nod 4.4: Bod disgwyliad i ddarparwyr gofrestru dysgwyr sydd wedi derbyn addysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Nod 4.5: Bod cydweithio rhwng awdurdodau lleol a darparwyr eraill yn y sector trydyddol i sicrhau dilyniant priodol mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Egwyddor 5: Dylai'r model ariannu gefnogi pob dysgwr i ddilyn darpariaeth Gymraeg a dwyieithog er mwyn defnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg

37. Mae'r egwyddor hon yn deillio'n naturiol o'r egwyddor graidd. Mae costau ychwanegol ynghlwm â darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac mae hyn eisoes wedi'i wreiddio yn y modelau cyllido. Yn achos y sector addysg uwch, amlygwyd hyn eto yn adroddiad London Economics Wales i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn 2023, sy'n dangos fod costau uwch ynghlwm â chysiau lle mae nifer gymharol fach o ddysgwyr yn dilyn darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog.

Nod 5.1: Bod model newydd tryloyw a chyson o ddarparu cyllid ar gyfer darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn cael ei ddatblygu i gefnogi gweithredu'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg.

Nod 5.2: Bod cyllid digonol yn cael ei neilltuo ar draws y gyfundrefn addysg drydyddol i bwrpas (1) cymell darpariaeth newydd, (2) cynnal y ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys darpariaeth i ddysgwyr sydd eisoes ar lefel C1 a C2, a (3) chynnal darpariaeth lle mae'r niferoedd yn fach ac yn debygol o aros felly.

Nod 5.3: Bod cyllid yn cael ei ddefnyddio at ddibenion penodol ac yn cael ei fonitro'n ofalus.

Nod 5.4: Bod atebolrwydd clir am y defnydd o'r cyllid.

Nod 5.5: Bod y Gymraeg yn ystyriaeth o fewn ffrydiau cyllid nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag addysg cyfrwng Cymraeg.

Egwyddor 6: Mae data cywir ac addas i bwrpas yn sail hanfodol ar gyfer cynllunio strategol, atebolrwydd a monitro

38. Er nad yw data da yn arwain ynddo'i hun at gynnydd mewn darpariaeth, mae'n rheidrwydd ar gyfer cynllunio, gweithredu effeithiol a monitro. Mae

gwendidau yn y modd mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cael ei diffinio, ei chofnodi a'i mesur yn llyffethair ar gynllunio a chynnydd.

Nod 6.1: At ddibenion cynllunio yn y tymor byr i ganolig, sefydlir gwaelodlin i fesur sefyllfa'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog bresennol ar draws y sector.

Nod 6.2: Ar gyfer y tymor canolig i hir, datblygir dull cywir a chyson ar draws y sector ac wedi'i seilio ar y Cod arfaethedig o adnabod a chofnodi lefel sgiliau Cymraeg dysgwyr, gan gynnwys mesur cynnydd dros gyfnod.

Nod 6.3: Ar gyfer y tymor canolig i hir, datblygir dull cywir a chyson ar draws y sector o ddiffinio a chofnodi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Nod 6.4: Bod y gyfundrefn data yn caniatáu dilyn y dysgwr drwy gydol eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol.